# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer


**Cylch Meithrin Ffrindiau Bach Yr Enfys**

**Canolfan yr Enfys**
**Stryd Napier**
**Aberteifi**
**SA43 1EH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroc [illegible] heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/01/2020

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Cylch Meithrin Ffrindiau Bach yr Enfys ym mis Hydref 2018 ac mae'n darparu gwasanaeth gofal dydd llawn i uchafswm o 32 o blant. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o ganolfan integredig 'Canolfan yr Enfys' yn nhref farchnad Aberteifi ac mae ar agor rhwng 9:00am a 3.15pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Cymraeg yw iaith y gwasanaeth. Gwenllian Landsdown-Davies a Leanne Marsh yw'r unigolion cyfrifol ar ran y sefydliad cofrestredig. Karen Holmes yw'r person â chyfrifoldeb.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel yn y gwasanaeth hwn. Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac maent yn ymgysylltu â gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae. Mae polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn hyrwyddo llesiant y plant ac mae'r staff yn darparu awyrgylch magwrus a gofalgar. Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân ac sy'n cynnwys ardaloedd chwarae croesawgar. Mae'r arweinwyr yn cyfathrebu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn dda ac yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi a herio pawb i wneud eu gorau; yn ogystal â gosod disgwyliadau uchel.

### 2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf llawn ers cofrestru.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas â'r amgylchedd. Mae'r rhain wedi'u rhestru ar ddiwedd yr adroddiad.

## 1. Llesiant Da

**Crynodeb**

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau a gwrandewir arnynt. Caiff dulliau cyfathrebu eu gwerthfawrogi a chaiff y plant eu hannog i siarad a mynegi eu hunain. Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau ac yn datblygu i fod yn sensitif i eraill. Maent yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig, ac yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau i'w galluogi i fod yn fwy annibynnol.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ar yr hyn sy'n effeithio arnynt. Pan gyrhaeddom y gwasanaeth, gwelsom y plant yn dewis y teganau yr oeddent am chwarae â nhw. Roedd gan y plant ryddid i symud o un ystafell fawr i'r llall ac roedd y drysau i'r ardal awyr agored wedi'u gadael ar agor fel y gallant fynd i mewn ac allan. Roedd y plant yn mwynhau chwarae gyda blociau, posau, paent, doliau ac anifeiliaid fferm ac archwilio yn yr ardal byd bach. Roeddent yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hanghenion a'u hwyliau yn cael eu hystyried. Roedd y plant yn cael eu hannog i drafod eu teimladau ar ôl cyrraedd y gwasanaeth ‘‘Sut wyt ti'n teimlo heddi?’’ ‘‘Mr. Hapus.’’ “Mr. Crac.” Roedd y plant nad oeddent yn siarad Cymraeg na Saesneg fel eu hiaith gyntaf yn cael eu hannog i ddefnyddio cardiau â lluniau i'w hysgogi i fynegi eu hoffterau neu gas bethau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Gwelsom y plant yn cymryd rhan yn eu sesiwn Ffit yn 5. Roedd y plant yn neidio dros glwydi, yn cydbwyso bagiau ffa ac yn neidio o un garreg sarn i'r llall. Roedd y plant yn frwdfrydig ac yn cwblhau'r gylched yn wên o glust i glust â chyfeiliant cerddoriaeth Gymraeg i'w hannog. Roedd y rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson dda. Roedd y plant yn mynd at y staff i gael cysur a maldod pan oeddent yn drist.

Mae'r plant yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel. Roedd y plant yn symud rhwng y ddwy ystafell fawr dan do yn rhydd a chânt gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored os byddant yn dymuno gwneud hynny. Gwnaeth un plentyn fwynhau'r gweithgaredd chwarae rôl yn yr awyr agored gan ddweud “oh no it’s got a flat tyre again. Pump it up” am ei gar.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus a datrys problemau. Yn ystod eu gweithgaredd corfforol, roedd y plant yn gallu helpu eu hunain i ddŵr o'r peiriant bach yn annibynnol. Roedd y plant yn cael eu hannog i olchi eu dwylo'n annibynnol cyn amser byrbryd a bwyta'n gymdeithasol â'u cyfoedion. Ar ôl amser byrbryd, cafodd y plant eu canmol am ddychwelyd eu platiau a'u cwpanau budr. “Da iawn, high five. Oh waw, diolch.” Roedd y plant yn cael ymdeimlad o gyflawniad ac yn awyddus i helpu'r staff gyda'u trefn ddyddiol. Roedd y plant yn gallu helpu eu hunain drwy arllwys eu llaeth neu ddŵr eu hunain i'r cwpanau a ddarparwyd.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd diddorol sy'n addas ar gyfer eu hoedran sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Bydd polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar gyfer diogelu a hyrwyddo llesiant y plant yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r staff yn cynnig amgylchedd magwrus a gofalgar ac maent yn gwybod ac yn deall sut i ddiwallu anghenion a darparu ar gyfer galluoedd unigol y plant. Mae'r gwasanaeth yn darparu mynediad i bob maes dysgu i'r plant ag anghenion ychwanegol ac yn eu cynnwys ym mhob agwedd i'w galluogi i wneud cynnydd.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn deall y polisïau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith mewn ffordd effeithiol ac arloesol. Cyn eu hamser byrbryd, roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo â dŵr a sebon cynnes ac yn sychu eu dwylo â thywelion papur. Roedd y staff yn defnyddio menig addas wrth baratoi a thrin bwyd y plant. Roedd y staff yn atgoffa'r plant i orchuddio eu cegau wrth besychu neu disian. Mae'r staff yn rhoi arferion glanhau cadarn ac arferion hylendid da ar waith. Mae'r staff yn defnyddio'r polisi newid cewynnau yn llwyddiannus wrth newid cewynnau. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae bron pob aelod o'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant yn drwyadl yn dda iawn. Roedd y staff yn ymateb i sefyllfaoedd yn hyderus os oedd honiad neu ddatgeliad yn cael eu gwneud yn erbyn plentyn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae bron pob aelod o'r staff yn deall y polisi ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad ar waith mewn ffordd gyson. Roedd y staff yn ymyrryd yn briodol ac yn ddigynnwrf pan oedd y plant yn gwrthdaro. Roedd y staff yn annog y plant i rannu adnoddau ac ymddiheuro pan oedd ystumiau neu eiriau cas yn cael eu defnyddio. Roedd y staff yn ymddwyn mewn ffordd gynnes a chyfeillgar gyda'r plant. Yn ystod amser byrbryd, eisteddodd y staff gyda'r plant wrth y bwrdd gan eu hannog i ryngweithio mewn ffordd gadarnhaol. Roedd y staff yn gweithredu mewn ffordd gyson i reoli ymddygiadau heriol.

Caiff dymuniadau ac anghenion unigol y plant eu hystyried mewn ffordd sensitif. Mae'r staff yn y gwasanaeth yn adnabod y plant yn dda. Yn ystod amser byrbryd, roedd y staff yn gwbl ymwybodol o'r plant ag alergeddau ac roedd rhestr ar gael i ni ei gweld. Mae'r staff yn ymwybodol o hoffterau a chas bethau'r plant a gwnaethant ddarparu dewis amgen i'r plant nad oeddent yn hoffi tost.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi sawl menter ar waith gan gynnwys rhaglen a oedd yn gofyn i'r plant ddysgu sut i ofalu am eu dannedd. Roedd y plant a oedd yn mynychu'r gwasanaeth am ddiwrnod cyfan yn derbyn cinio iach a baratowyd yn yr ysgol gynradd leol gan ddilyn canllaw arferion gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer Bwyd a Maeth.

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r safle a'r ardaloedd chwarae yn yr awyr agored yn ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Mae digon o le a chyfleusterau yn y gwasanaeth i ddiwallu anghenion y plant. Mae cynllun yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Pan gyrhaeddom, roedd y safle wedi'i gau'n ddiogel i'r cyhoedd. Roedd angen i ni ganu cloch a chawsom ein cyfarch gan aelod o'r staff a oedd yn gallu mynd i mewn i'r gwasanaeth gan ddefnyddio system ffob electronig. Mae'r safle yn gynnes ac yn groesawgar ac mae gwaith y plant wedi'i arddangos ym mhobman.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o ardaloedd chwarae dan do yn yr amgylchedd er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Mae'r ardal chwarae yn cynnwys dwy ystafell fawr y mae'r plant yn gallu symud rhyngddynt yn rhydd. Caiff yr ardal chwarae awyr agored ei defnyddio mor aml â phosibl ac roedd y drysau i'r ardal awyr agored ar agor i'r plant fynd allan pryd bynnag roeddent yn dymuno gwneud hynny. Mae'r staff yn y gwasanaeth yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig amrywiaeth dda o adnoddau sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb. Roedd y plant yn chwarae ar feiciau, treiciau a sgwteri; yn yr ardal adeiladu, gyda dŵr ac ar y siglen a'r sleid. Roedd y plant yn mwynhau chwarae mewn cegin fwd wych a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau gan gynnwys sosbenni, padelli, llwyau pren, pridd a dŵr.

Gwelsom waith celf a chrefft y plant yn ystod ein hymweliad gan eu bod wedi bod yn creu cardiau ar gyfer diwrnod Santes Dwynwen. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi bod yn trafod y diwrnod hwn gyda'r plant er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw adnoddau a oedd yn hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb.

Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Mae wedi'i gynnal a'i gadw'n dda gyda systemau gwresogi ac awyru cyson, yn dibynnu ar y tymheredd. Roedd y staff yn gwirio tymheredd yr amgylchedd bob dydd. Roedd hyn yn cael ei gofnodi ar siart dyddiol, a oedd wedi'i arddangos ar waliau'r ystafell chwarae ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae'r staff yn y gwasanaeth yn trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau da yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Cyn defnyddio'r offer awyr agored, roedd aelod o'r staff yn sicrhau bod yr holl adnoddau yn ddiogel ac yn lân i'r plant eu defnyddio. Roedd yr holl adnoddau'n cael eu golchi â lliain ac yna'n cael eu sychu. Roedd y plant yn cael eu hannog i olchi eu dwylo â dŵr a

sebon cynnes cyn amser byrbryd, ar ôl defnyddio cyfleusterau'r toiled ac wrth ddychwelyd o'r ardaloedd chwarae yn yr awyr agored. Roeddent yn sychu eu dwylo â thywelion papur unigol ac yn cael gwared arnynt mewn ffordd addas.

## 4. Arwain a Rheoli — Da

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr yn cydymffurfio â holl reoliadau AGC ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch. Mae'r asesiadau risg a'r polisïau yn gadarn yn y gwasanaeth hwn. Mae'r arweinwyr yn mynd ati i annog, cefnogi a herio pawb i wneud eu gorau a gosod disgwyliadau uchel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod system effeithiol o oruchwylio ac arfarnu'r staff sy'n arwain at gytuno ar dargedau. Mae'r gwasanaeth yn glir ynglŷn â'i rôl a'i gyfrifoldebau i ennyn ymddiriedaeth ac mae wedi sefydlu prosesau cyfathrebu clir rhwng partneriaid.

**Ein canfyddiadau**

Mae gan yr arweinwyr yn y gwasanaeth hwn weledigaeth benodol ar ei gyfer, ac maent yn ei rhannu ag eraill. Mae'r datganiad o ddiben yn gywir ac yn adlewyrchu'n gywir yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Yn ystod ein hymweliad, gwnaeth yr arweinwyr drafod eu nod o weithio tuag at lunio cynllun sicrhau ansawdd gyda sefydliad cenedlaethol. Gwnaethant egluro eu bod yn cynnal cyfarfodydd wythnosol â'r staff er mwyn casglu syniadau a thrafod cynlluniau gweithgareddau i'r plant gan gynnwys y camau nesaf a'r ffordd ymlaen. Mae'r staff yn y gwasanaeth hwn yn hapus yn eu gwaith. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan arweinwyr sy'n gosod disgwyliadau uchel ac sy'n mynd ati i annog eu timau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio'n dda er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni cymarebau staffio ac yn diwallu anghenion y plant. Gwelsom gofrestrau'r plant a'r staff yn ystod ein hymweliad a oedd yn nodi bod y gwasanaeth yn sicrhau cymarebau staffio digonol. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff yn sicrhau ei fod yn llofnodi'r gofrestr ar ôl gadael a dychwelyd i'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth wedi cyflogi aelodau o'r staff i weithio un i un gyda phlant unigol er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n llawn.

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau y mae modd eu cyflawni er mwyn hybu gwelliant a sicrhau canlyniadau da i'r plant. Gwelsom ymarfer cyson drwy gydol y gwasanaeth ac roedd y staff yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r arweinwyr wedi llunio adolygiad o ansawdd y gofal ac wedi ystyried barn y rhieni, y staff a'r plant.

Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi meithrin partneriaethau rhagorol â'r rhieni, yr ysgol leol a'r gymuned. Mae'r arweinwyr wedi trefnu ymweliadau â'r orsaf dân ac ambiwlans leol. Maent yn ymweld â'r llyfrgell leol, cartref gofal preswyl a'r eglwys leol yn rheolaidd. Mae aelodau o'r staff o wasanaethau eraill wedi ymweld â'r gwasanaeth i weld a rhannu

enghreifftiau o arfer da. Mae'r plant wedi cael cyfleoedd i fynd ar deithiau i sawl lle gwahanol megis gwarchodfa natur, parc bywyd gwyllt a fferm leol.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau ynglŷn ag amseroldeb fel sy'n ofynnol. Dywedodd yr aelodau o'r staff wrthym fod yr arweinwyr wedi rhoi gweithdrefn sefydlu dda ar waith, bod y prosesau rheoli perfformiad yn dda a'u bod yn annog y staff i fynychu amrywiaeth o hyfforddiant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell bod yr arweinwyr yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi'r gofrestr wrth gyrraedd a gadael y gwasanaeth yn ystod eu hegwyl
- buddsoddi mewn adnoddau sy'n datblygu ac yn hyrwyddo amgylchedd amlddiwylliannol ac sy'n dathlu amrywiaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd dau arolygydd un ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth ar 22 Ionawr 2020 am gyfanswm o bedair awr a hanner. Rhoddwyd adborth dros y ffôn ar 27 Ionawr am gyfanswm o 30 munud. Fel rhan o'r arolygiad gwnaethom y canlynol:

- arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd iddynt gan y staff;
- siarad â'r arweinwyr, y staff, y plant, y rhieni, y gofalwyr a'r neiniau a'r teidiau;
- edrych ar sampl o ddogfennaeth yn cynnwys cofrestrau'r staff a'r plant, ffeiliau'r staff, asesiadau risg, cofnodion damweiniau;
- edrych ar y safle y tu mewn a'r tu allan.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cyfrifol | Leanne Marsh<br>Gwenllian Lansdown Davies |
| Person â chyfrifoldeb | Karen Holmes |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 32 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Oriau agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, 9:00am – 3:15pm, yn ystod tymor yr ysgol yn unig |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 22 Ionawr 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/03/2020